



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2009 Rhif 1505 (Cy.146)

2009 No. 1505 (W.146)

PRIFFYRDD, CYMRU

HIGHWAYS, WALES

Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun
i Fangor (Yr A487) (Ffordd Osgoi
Porthmadog, Minffordd a
Thremadog a Thynnu Statws
Cefnffordd) 2009

The Fishguard to Bangor Trunk
Road (A487) (Porthmadog,
Minffordd and Tremadog Bypass
and De-trunking) Order
2009

Gwnaed 17 Mehefin 2009

Made 17 June 2009

Yn dod i rym 25 Mehefin 2009

Coming into force 25 June 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10, 12, 106 a 254 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1), a phob pŵer galluogi arall (2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by sections 10, 12, 106 and 254 of the Highways Act 1980(1), and of all other enabling powers (2), make this Order.

1. Bydd y priffyrdd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu hadeiladu ar hyd y llwybrau a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn dod yn gefnffyrdd ar y dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

1. The new highways which the Welsh Ministers propose to construct along the routes described in Schedule 1 to this Order shall become trunk roads as from the date when this Order comes into force.

2. Dangosir llinellau canol y cefnffyrdd newydd â llinellau duon trymion a dangosir y cynigion cysylltiedig ar gyfer ffyrdd ymyl â llinellau gwynion wedi'u torri ar y plan a adnewwyd.

2. The centre lines of the new trunk roads are indicated by heavy black lines and the associated side roads proposals are indicated by broken white lines on the deposited plan.

3. Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adnewwyd, yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffyrdd dosbarthiadol ar y dyddiad pan fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Gwynedd fod y cefnffyrdd newydd ar agor ar gyfer traffig trwodd.

3. The lengths of trunk road described in Schedule 2 to this Order, and shown by broad striped hatching on the deposited plan shall cease to be trunk road and shall become classified roads as from the date on which the Welsh Assembly Government notifies the County Council of Gwynedd that the new trunk roads are open for through traffic.

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi i godi'r bont a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fel rhan o'r brif gefnffordd newydd.

4. The Welsh Assembly Government is authorised to construct the bridge specified in Schedule 3 to this Order as part of the main new trunk road.

5. Yn y Gorchymyn hwn:—

5. In this Order:—

(1) Caiff pob mesur o bellter ei fesur ar hyd llwybry briffordd berthnasol;

(1) all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway;

- i. ystyr 'y plan a adnewyd' (*'the deposited plan'*) yw'r plan sy'n dwyn y rhif HA 10/2 WAG 1 ac sydd wedi'i farcio 'Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009', wedi'i lofnodi ar ran Gweinidogion Cymru ac wedi'i adneuo yn yr Uned Storïo ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;
- ii. ystyr 'y gefnffordd' (*'the trunk road'*) yw Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487);
- iii. ystyr 'y cefnffyrdd newydd' (*'the new trunk roads'*) yw'r cefnffyrdd a grybwyllir yn erthygl 1 y Gorchymyn hwn ac ystyr 'cefnffordd newydd' yw un o'r priffyrdd hynny;

6. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Mehefin 2009 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Ffordd Osgoi Porthmadog, Minffordd a Thremadog a Thynnu Statws Cefnffordd) 2009'

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

- i. 'the deposited plan' (*'y plan a adnewyd'*) means the plan numbered HA 10/2 WAG 1 marked 'The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Porthmadog, Minffordd and Tremadog Bypass and De-trunking) Order 2009', signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited at the Welsh Assembly Government Record Storage and Retrieval Unit (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Cardiff;
- ii. 'the trunk road' (*'y gefnffordd'*) means the Fishguard to Bangor Trunk Road (A487);
- iii. 'the new trunk roads' (*'y cefnffyrdd newydd'*) means the highways mentioned in article 1 of this Order and 'a new trunk road' means one of those highways;

6. This Order comes into force on 25 June 2009 and its title is 'The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (Porthmadog, Minffordd and Tremadog Bypass and De-trunking) Order 2009'

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Jeff Collins

17 Mehefin 2009

17 June 2009

J COLLINS

Dirprwy, Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1980 p.66.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

J COLLINS

Deputy Director of Transport Planning and Governance

Welsh Assembly Government


(1) 1980 c.66.

(2) By virtue of S.I. 1999/672 article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales.


Gadawyd y ddalen hon yn lân yn fwriadol

This page has been left intentionally blank

Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Portmadog, Minffordd a Thremadog a Ddiou Statws Cefnffordd) 2009 Atodlen 3 - Manylebau Pont dros Dyffnos Fordwyadwy The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487)(Portmadog, Minffordd and Tremadog Bypass and De-trunking) Order 2009 Schedule 3 - Specifications of Bridge over Navigable Watercourse



CYNLLUN ALLWEDDOL / KEY PLAN
SCALE / GRADDFA 1:10000



CYNLLUN O'R SAFLE / SITE PLAN
SCALE / GRADDFA 1:2500

Cynlluniau a manyleb pont newydd dros Alon Glaslyn, rhwng Traeth Mawr a Chwarael Minffordd - Ffordd Osgoi Portmadog, Minffordd a Thremadog yr A487. Mae pob lefel i neu m USO.

Plans and specification of new bridge over Alon Glaslyn, between Traeth Mawr and Minffordd Quarry - A487 Portmadog, Minffordd and Tremadog Bypass. All levels are in m AOD.

Manyleb/SPECIFICATION
Pwyntiau cychwyn a thelynu:

Yng Newydd, o bwynt ar y lan ogleddol (cylfrednodd grŵd E 258983.300) tua 45m i'r gogledd o wal gynnal ogleddol y bont reilffordd bresennol i bwynt ar y lan ddwyreidd (cylfrednodd grŵd E 258982.700) tua 50m i'r gogledd-ddwyrain o wal gynnal ddwyreidd y bont reilffordd bresennol. (mael cylfrednoddau grŵd yn undd Sgdd Cenddeithol Prydain fel y'u dangosir ar ddiagram anolyg odians SH5839) .

Points of commencement and termination:
In the county of Gwynedd from a point on the west bank (grid reference E 258983.300) approx. 45m north from the west abutment of the existing railway bridge to a point on the east bank (grid reference E 258982.700) approx. 50 m north east from the east abutment of the existing railway bridge, (grid references are to British National Grid as shown on Ordnance Survey sheet SH5839)

RHYCHWANT/SPAN
Pati rychwant 35m, gyda rychwantau ochr o 50m


UCHDWR/HEADWAY
Mab span 35m, with side spans of 50m

Y cffad uchder o lefel isel y dw'r yn y stanel fordwyadwy yw 4.8m (1.7m o lefel uchel yw'r r1. Dim ond tua 4.3m yw'r cffad uchder o lefel isel y dw'r wrth y bont reilffordd gyda gos.

Headway clearance from the low water level at the navigable channel is 4.8m (1.7m from the high water level). Headroom clearance from the low water level at the adjacent railway bridge is limited to approximately 4.3m.

DYFFNODD/WATERWAY
Bywdeir cadw'r stanel fordwyadwy bresennol 25 metr o led

Existing navigable channel of 25 metres width is to be maintained



DRYCHIAD PONT TUAR GOGLEDD / ELEVATION OF BRIDGE LOOKING NORTH
SCALE / GRADDFA 1:500

Reproduced from the Ordnance Survey 1:2500 map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Licence Number 032721

Aghyrrychwyd o tap yr Arrolwg Odians 1:2500 gyda chnodod rheolwr Llyfro E. Manlydyl, © Heaffraint y Goron. Rhif trwydalen 032721

Rhif y CYNLLUN/PLAN NCH/A 10/2 WAG 1

Gadawyd y ddalen hon yn lân yn fwriadol

This page has been left intentionally blank

ATODLEN 1

LLWYBRAU'R CEFNFFYRDD NEWYDD

Dyma lwybrau'r cefnffyrdd newydd i'r de o Dremadog ac i'r gogledd o Borthmadog a Minffordd yn Sir Gwynedd:—

(1) llwybr oddeutu 1.05 o gilometrau o hyd, yn cychwyn wrth bwynt oddeutu 85 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'i gyffordd â phrif ffordd yr A498 i Gricieth yn Nhremadog (wedi'i farcio ag A ar y plan a adneuwyd) ac sy'n cynnwys cylchfan newydd 40 o fetrau i'r de o'i gyffordd â phrif ffordd yr A498 i Gricieth ac yna'n ymestyn tua'r dwyrain at bwynt oddeutu 190 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A487 a'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Glanrafon ym Mhorthmadog (wedi'i farcio â B ar y plan a adneuwyd).

(2) llwybr oddeutu 3.76 o gilometrau o hyd, yn cychwyn wrth y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A487 a'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Glanrafon ym Mhorthmadog (sydd wedi'i farcio ag C ar y plan a adneuwyd), ac sy'n cynnwys cylchfan newydd 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno, ac yna'n ymestyn tua'r dwyrain i gylchfan newydd arall wrth y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A487 â ffordd fynediad Parc Busnes Eryri ym Minffordd (sydd wedi'i farcio â D ar y plan a adneuwyd).

ATODLEN 2

DARNAU O GEFNFFORDD SY'N PEIDIO Â BOD YN GEFNFFORDD

Dyma lwybrau'r darnau o gefnffordd sy'n peidio â bod yn gefnffordd yn Sir Gwynedd:—

(1) y darn hwnnw o gefnffordd yr A487 oddeutu 850 o fetrau o hyd rhwng pwynt oddeutu 450 o fetrau i'r de-orllewin o ganol cyffordd Stryd Dulyn a Stryd yr Eglwys yn Nhremadog a phwynt oddeutu 400 o fetrau i'r de-ddwyrain o gyffordd Stryd Dulyn a Stryd yr Eglwys yn Nhremadog ac sy'n cynnwys Y Sgwâr yn Nhremadog (wedi'i farcio ag 1ar y plan a adneuwyd).

SCHEDULE 1

ROUTES OF THE NEW TRUNK ROADS

The routes of the new trunk roads are south of Tremadog and north of Porthmadog and Minffordd in the County of Gwynedd as follows:—

(1) a route about 1.05 kilometres in length, starting at a point about 85 metres north west of its junction with the A498 principal road to Criccieth at Tremadog (marked A on the deposited plan) and including a new roundabout 40 metres south of its junction with the A498 principal road to Criccieth, and then extending in an easterly direction to a point about 190 metres north west of the centre of the junction between the existing A487 trunk road and the unclassified road known as Ffordd Glan'Rafon at Porthmadog (marked B on the deposited plan).

(2) a route about 3.76 kilometres in length, starting at the junction between the existing A487 trunk road and the unclassified road known as Ffordd Glan'Rafon at Porthmadog (marked C on the deposited plan), and including a new roundabout 50 metres southeast of that junction, and then extending in an easterly direction to a further new roundabout at the junction between the existing A487 trunk road and the Snowdonia Business Park access road at Minffordd (marked D on the deposited plan).

SCHEDULE 2

LENGTHS OF TRUNK ROAD CEASING TO BE TRUNK ROAD

The lengths of trunk road ceasing to be trunk road are routes in the County of Gwynedd as follows:—

(1) that length of the A487 trunk road about 850 metres in length situated between a point about 450 metres south west of the centre of the junction of Dublin Street and Church Street at Tremadog to a point about 400 metres south east of the junction of Dublin Street and Church Street at Tremadog and including Market Square in Tremadog (marked 1 on the deposited plan).

(2) y darn hwnnw o gefnffordd yr A487, oddeutu 4,675 o fetrau o hyd rhwng pwynt oddeutu 65 o fetrau i'r de o ganol cyffordd y Stryd Fawr (yr A487) a'r ffordd ddiddosbarth o'r enw Ffordd Glanrafon ym Modawen, a phwynt oddeutu 30 o fetrau i'r de-orllewin o ganol y gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A487 a Pharc Busnes Eryri ym Minffordd ac sy'n cynnwys y Stryd Fawr a Phont Britannia ym Mhorthmadog a'r Cob (sydd wedi'i farcio â 2 ar y plan a adnewwyd).

(2) that length of the A487 trunk road, about 4,675 metres in length, situated between a point about 65 metres south of the centre of the junction of (A487) Stryd Fawr and the unclassified road known as Ffordd Glan'Rafon at Bodawen, and a point about 30 metres south west of the centre of the junction between the existing A487 trunk road and the Snowdonia Business Park access road at Minffordd and including Stryd Fawr and Britannia Bridge in Porthmadog and The Cob (marked 2 on the deposited plan).

ATODLEN 3

SCHEDULE 3

MANYLEB PONT DROS GWRS DŴR MORDWYOL

SPECIFICATIONS OF BRIDGE OVER NAVIGABLE WATERCOURSE

Pont newydd dros y cwrs dŵr mordwyol o'r enw Afon Glaslyn Sir o Gwynedd o bwynt ar y lan orllewinol oddeutu 45 o fetrau i'r gogledd o arglawdd gorllewinol Pont bresennol Rheilffordd Arfordir Cymru at bwynt ar y lan ddwyreiniol oddeutu 50 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o arglawdd dwyreiniol y bont honno.

A new bridge over the navigable waterway known as the Afon Glaslyn in the County of Gwynedd from a point on the west bank about 45 metres north from the west abutment of the existing Cambrian Coast Mainline Railway Bridge to a point on the east bank about 50 metres northeast from the east abutment of that bridge.

© Hawlfraint y Goron 2009

© Crown copyright 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.